YSTADEGAU, DOGFENNU

# Trosolwg o'r Farchnad Lafur: Medi 2024 (canlyniadau pennawd)

Data misol ar gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 10 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

**Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill**

**Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2024**

**Gwybodaeth bellach**

**Manylion cyswllt**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r pennawd hwn yn rhoi crynodeb o'r ystadegau allweddol diweddaraf sy'n ymwneud â marchnad lafur Cymru, ac mae'n cynnwys ystadegau arbrofol Gwybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill gan adran Gyllid a Thollau EF (CThEF) ac o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS).

# Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) a Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru am weithwyr sydd ar gyflogres, tâl cymedrig, tâl yn ei grynswth ac amcangyfrifon un mis ar gyfer tâl canolrifol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithwyr cyflogedig

### Ffigur 1: Cyflogeion cyflogedig, Cymru, mis Awst 2019 i fis Awst 2024




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart llinell sy'n dangos tuedd gyffredinol ar i fyny o weithwyr cyflogedig dros y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf gostyngiad serth rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2020.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o PAYE RTI, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a CThEF.

Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Awst 2024 yn dangos bod nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru wedi gostwng 1,700 (0.1%) dros y mis i 1.32 miliwn.

Ar lefel y Deyrnas Unedig (DU), dangosodd amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Awst 2024 ostyngiad misol o 58,600 (0.2%).

Mae dadansoddiadau manwl eraill o **weithwyr cyflogedig gan gynnwys yn ôl awdurdod lleol, yn ôl oedran ac yn ôl sector gan y Swyddfa Ystadegau**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


**Gwladol**.

## Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2024

**Mae cyfyngau hyder ar gyfer y prif gyfraddau marchnad lafur ar gael ar wefan y SYG**. Mae'r data diweddaraf yn dangos nad oedd unrhyw newidiadau ystadegol arwyddocaol ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2024. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r newidiadau chwarterol a blynyddol ar gyfer y dangosyddion hyn yn debygol o adlewyrchu newid gwirioneddol yn y data.

## Cyfradd cyflogaeth

### Ffigur 2: Cyfradd cyflogaeth, y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2014 i'r 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2024




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd cyflogaeth yn y DU


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn gyffredinol yn uwch nag yng Nghymru dros y 10 blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg o'r Llafurlu

### Cymru

Roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 69.8%. Mae hyn i fyny 0.8 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 2.9 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

### DU

Roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y DU yn 74.8%. Mae hyn i fyny 0.5 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr ychydig ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfradd diweithdra

### Ffigur 3: Cyfradd diweithdra, y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2014 i'r 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2024




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd diweithdra wedi gostwng ar y cyfan yng Nghymru ac yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu

#### Cymru

Roedd y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn 4.0%. Mae hyn i fyny 0.5 pwynt canran ar y chwarter ac heb newid ar yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

#### DU

Roedd cyfradd diweithdra y DU yn 4.1%. Mae hyn i lawr 0.2 pwynt canran ar y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chwarter ac i lawr 0.2 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

## Cyfradd anweithgarwch economaidd

### Ffigur 4: Cyfradd anweithgarwch economaidd, y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2014 i'r 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2024




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyffredinol yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf ond mae wedi cynyddu ar y cyfan ers y misoedd cynnar yn 2020. Yng Nghymru, mae'r gyfradd wedi amrywio dros y cyfnod hwn ond yn gyffredinol mae'n parhau i fod yn uwch na chyfradd y DU.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu

### Cymru

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 27.2%. Mae hyn i lawr 1.2 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 2.8 pwynt canran ers yr un cyfnod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

flwyddyn ynghynt.

**DU**

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer y DU yn 21.9%. Mae hyn i lawr 0.3 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.3 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

## Gwybodaeth bellach

Mae'r SYG wedi nodi bod heriau o ran cynnal cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i effeithio ar ansawdd data, er gwaethaf yr **ail-bwysoliad o'r amcangyfrifon ym mis Chwefror 2024**. Bydd ystadegau'r farchnad lafur sy'n seiliedig ar Arolwg o'r Llafurlu yn cael eu labelu fel **ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu (Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** nes bydd adolygiad pellach ac rydym yn parhau i argymell gofal wrth ddehongli'r data hwn.

Byddem yn argymell defnyddio data'r LFS ochr yn ochr â'r tueddiadau mewn mesurau eraill yn y farchnad lafur, yn enwedig Swyddi'r Gweithlu (mesur chwarterol o swyddi), nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra) a'r data RTI gan CThEF (nifer y gweithwyr ar y gyflogres) i gael darlun cliriach o'r farchnad lafur yng Nghymru.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Joe Davies
E-bost: **ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-medi-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.